Polisi Cludiant Ysgol Arfaethedig Diwygiedig
(Gan ystyried Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008

1. Darparu Cludiant Di-dâl

Mae dyletswydd statudol ar yr Awdurdod i wneud trefniadau teithio addas ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol, gan ddarparu cludiant di-dâl i'w hysgol addas agosaf os ydynt yn byw tu hwnt i "bellter cerdded" i'r ysgol honno.

Mae'r gyfraith yn diffinio "pellter cerdded" fel dros ddwy filltir i ddisgyblion sy'n derbyn addysg gynradd a thros dair milltir i ddisgyblion sy'n derbyn addysg uwchradd.

Mae'r Awdurdod yn ystyried mai'r ysgol addas agosaf yw'r ysgol agosaf at y cyfeiriad cartref sy'n darparu addysg berthnasol i oed, gallu a dawn y disgybl, (gan gynnwys, pan fo hynny'n berthnasol, uned cyfeirio disgyblion). Caiff pellterau eu mesur ar hyd y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael o gartref i'r ysgol, sy'n gallu cynnwys llwybrau cyhoeddus. Y llwybr byrraf sydd ar gael yw un a farnwyd sy'n ddiogel i blant heb anabledd neu anhawster dysgu ei gerdded ar eu pennau'u hunain, neu gyda hebryngwr os byddai oed y plentyn yn gofyn hynny.

Bydd trefniadau cludo'n cael eu gwneud hefyd ar gyfer unrhyw blant o oedran ysgol gorfodol, sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol, sy'n mynychu sefydliad addysg bellach fel myfyrwyr llawn-amser os yw'n dair milltir neu fwy o'u cartrefi ac na wnaed unrhyw drefniadau gan yr Awdurdod i'r disgyblion dderbyn addysg yn nes adref.

Bydd llwybrau unigol o fewn pellter cerdded yn cael eu hasesu yn unol â Pholisi Llwybrau Peryglus y Cyngor ar gais. Bydd cludiant yn cael ei drefnu, yn ddi-dâl i'r disgybl, lle nodwyd bod y llwybr yn beryglus.

Pan fo disgyblion, o ganlyniad i ddewis y rhieni, yn mynychu ysgol heblaw'r ysgol addas agosaf, rhaid deall bod rhieni'n derbyn cyfrifoldeb llawn dros drefniadau cludo. Bydd hyn yn cynnwys gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol yn ogystal â thalu'r gost.

Ymhob achos, defnyddio adnoddau'n effeithlon fydd yn penderfynu'r math o gludiant sy'n cael ei ddarparu (yn amodol ar unrhyw ofynion anghenion arbennig). Gall cludiant gael ei ddarparu trwy gyfrwng gwasanaeth cludiant ysgol dan gontract neu trwy ddefnyddio gwasanaeth cludiant cyhoeddus presennol.

Gall disgyblion o oedrannau cymysg, er enghraifft, disgyblion oed cynradd ac uwchradd, deithio ar gludiant ar y cyd yn ogystal â disgyblion o wahanol gefndiroedd ieithyddol ac enwadol**.**

Nid oes modd trefnu llwybrau'r cerbydau i fynd heibio'n agos at gartrefi holl ddisgyblion. Felly, efallai y bydd angen gwneud trefniadau i ddisgyblion gyrraedd man codi agosaf y cerbyd.

Bydd hyn o fan ger cartref y plentyn o fewn rheswm i fan ger yr ysgol o few rheswm – nid at ddrws yr ysgol ond yn agos ato o fewn rheswm.

2. Cludiant i Ysgolion Meithrin / Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar

Nid yw plant tair oed sy'n mynychu ysgolion meithrin neu leoliadau blynyddoedd cynnar yn gymwys i dderbyn cludiant di-dâl. Caiff cludiant ei ddarparu o ddechrau'r flwyddyn ysgol pan fydd y plentyn yn cyrraedd pump oed ac sydd â hawl yn ôl pellter cerdded.

3. Plant Dan Ofal.

Caiff trefniadau cludiant addas eu gwneud ar gyfer plant, o oedran ysgol gorfodol, sydd dan ofal yr awdurdod lleol. Bydd cludiant di-dâl yn cael ei ddarparu i'r ysgol neu sefydliad addysgol arall lle cofrestrwyd hwy os ydynt yn byw tu hwnt i'r pellter cerdded, yn ôl y diffiniad yn (1) uchod, i'r ysgol honno neu'r sefydliad hwnnw.

4. Cyfrifoldeb Rhieni

Rhieni sy'n gyfrifol am y canlynol:

i) cael eu plant i'r ysgol ac yn ôl lle nad oes ganddynt hawl i gludiant di-dâl;

ii) gwneud cais am gludiant di-dâl i benderfynu a yw eu plant yn gymwys;

iii) hysbysu'r AALl a'r ysgol os newidiodd amgylchiadau all effeithio ar gludiant;

iv) sicrhau bod eu plant yn barod ac yn aros am eu cludiant ar yr adeg ac yn y lle priodol. Pan fo plant yn cael eu codi / gollwng yn eu cartrefi, y rhieni sy'n gyfrifol am fynd gyda'u plant rhwng y drws a'r cerbyd;

v) gwneud pob ymdrech i sicrhau bod ymddygiad eu plant wrth ddefnyddio cludiant ysgol yn dderbyniol yn gymdeithasol**;**

vi) diogelwch eu plant i fannau codi / gollwng a gytunwyd ac yn ôl.

Mae cod ymddygiad y Cyngor ar gyfer cludiant rhwng cartref ac ysgol yn manylu cyfrifoldeb rhieni, disgyblion a gweithredwyr cludiant. Mae copïau ar gael o'r Adran Cludiant a Rheoli Asedau.

5. Ymddygiad

Gall unrhyw gamymddwyn gan ddisgyblion wrth deithio ar gludiant ysgol, allai effeithio ar ddiogelwch disgyblion, gyrwyr, hebryngwyr a/neu ddefnyddwyr eraill y ffyrdd, arwain at waharddiadau. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, bydd rheolau disgyblu arferol eu hysgol yn berthnasol i ddisgyblion.

6. Amserau Teithio

Ni ddylai plant oed cynradd dreulio mwy na thri chwarter awr wrth gael eu cludo rhwng cartref ac ysgol ac ni ddylai disgyblion oed uwchradd dreulio mwy nag

awr. Fe all eithriadau ddigwydd ar adegau. Bydd hyn yn gofyn ymgynghori â Chydlynu Cludiant.

7. Trefniadau Codi a Gollwng

Fel arfer, bydd cludiant i safleoedd bysiau neu fannau codi ac yn ôl ar gyfer grwpiau disgyblion. Ni fydd yn cael ei ddarparu o ddrws i ddrws heblaw dan amgylchiadau eithriadol. Bydd angen i ddisgyblion fod mewn man codi dynodedig yn agos at eu cartrefi o fewn rheswm. Ni fydd gan unrhyw ddisgyblion / myfyrwyr sy'n gymwys i'w cludo ar lwybr contract hawl i gael eu cludo oddi allan i amserlen ddyddiol arferol y contract hwnnw.

Caiff darparwyr cludiant eu gorchymyn i fynd â phlant i'r man diogel agosaf os digwydd i rieni neu ofalwyr fethu cyfarfod eu plant yn y man gollwng penodedig / amser penodedig. Mae modd codi cost ychwanegol mynd â'r plant i'r man diogel agosaf ar y rhieni.

8. Trefniadau Cludo Ychwanegol

Os yw Contractwr wedi darparu cerbyd addas yn y man ac ar yr adeg berthnasol a naill ai'r rhiant na'r disgybl yn cyflwyno eu hunain, yna ni fydd darpariaeth arall yn cael ei gwneud ar y diwrnod hwnnw.

9. a) Cludiant i Ysgolion Gwirfoddol ac Ysgolion Cymraeg

Bydd disgyblion sy'n mynychu'r Ysgol Wirfoddol Gymorthedig, Ysgol Wirfoddol Reoledig neu ysgol Gymraeg agosaf yn derbyn cludiant di-dâl ond mai'r ysgol honno yw'r ysgol addas agosaf o'r math hwnnw a'u bod yn byw tu hwnt i'r pellter cerdded a gytunwyd ar sail y diffiniad yn (1) uchod.

b) Y Cwricwlwm Cenedlaethol fel y Disgrifiwyd yng Nghymru.

Bydd disgyblion sy'n mynychu'r ysgol agosaf lle mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol fel y mynegwyd yng Nghymru, o ran y Gymraeg a Diwylliant Cymreig, ar gael iddynt yn derbyn cludiant di-dâl ond mai'r ysgol honno yw'r ysgol addas agosaf o'r math hwnnw a'u bod yn byw tu hwnt i'r pellter cerdded a gytunwyd ar sail y diffiniad yn (1) uchod.

10. Trefniadau Teithio i Darparwyr Hyfforddiant Eraill neu Brofiad Gwaith.

Caiff trefniadau teithio addas eu gwneud ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol, yn byw yn y Fwrdeistref Sirol, sy'n derbyn eu haddysg neu hyfforddiant mewn gwahanol sefydliadau addysgol neu gyda gwahanol ddarparwyr hyfforddiant ar wahanol ddiwrnodau o'r wythnos, neu sy'n mynychu lleoliad profiad gwaith awdurdodedig, ond bod y llwybr o'u cartrefi i'r sefydliad tu hwnt i'r pellter cerdded a gytunwyd ar sail y diffiniad yn (1) uchod. Gall hyn fod trwy dalu treuliau teithio'r disgybl. Fodd bynnag, ni fydd yr Awdurdod yn gyfrifol am y trefniadau teithio rhwng sefydliadau neu safleoedd addysgol.

11. Cludiant i Ysgolion mewn Awdurdodau Cyfagos

Bydd disgyblion sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam ac sy'n mynychu ysgolion awdurdodau cyfagos yn derbyn cludiant di-dâl ond mai'r ysgol honno yw'r ysgol addas agosaf a'u bod yn byw tu hwnt i'r pellter cerdded a gytunwyd ar sail y diffiniad yn (1) uchod.

12. Cludiant Arbennig ar Sail Feddygol

Gall cludiant di-dâl gael ei ddarparu ar sail feddygol i hwyluso presenoldeb disgyblion yn yr ysgol lle cofrestrwyd hwy ar argymhelliad Swyddog Meddygol Ysgolion penodedig yr Awdurdod lle nad oes cludiant cyhoeddus addas.

13. Trefniadau Arbennig: Llwybrau Peryglus

Yn ôl eu teilyngdod ac yn unol â Pholisi Llwybrau Peryglus y Cyngor, bydd yr awdurdod yn ystyried ceisiadau gan rieni am gludiant di-dâl i ddisgyblion sy'n byw o fewn y pellter cerdded statudol i'r ysgol addas agosaf lle mae'r llwybr i'r ysgol yn beryglus, ym marn yr Awdurdod.

14. Cludiant Goddefiadol

O bryd i'w gilydd fe all nifer y disgyblion sydd i'w cludo gan yr awdurdod yn llai na nifer y seddau ar y cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar lwybr penodol. Mewn achosion o'r fath bydd yr Awdurdod yn cadw'r hawl i gynnig lleoedd dros ben i blant sy'n mynychu eu hysgol agosaf ac sy'n byw islaw'r pellter statudol fel y pennwyd yn (1) uchod, cyhyd â bod y lleoedd ar gael. Rhaid deall nad yw darparu seddau goddefiadol yn cynrychioli parhad ymrwymiad ar ran yr Awdurdod i ddarparu cludiant a'i fod yn dibynnu'n llwyr ar fod seddau dros ben ar gael. Felly, gall seddau goddefiadol gael eu tynnu'n ôl ar fyr rybudd, os bydd eu hangen ar fyfyrwyr â hawl sy'n gofyn am ddarpariaeth wedyn.

Bydd seddau goddefiadol yn costio £50 y tymor i rieni a bydd y taliad hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Newid Cyfeiriad

Ni fydd hawl i gludiant ysgol am ddim gan rieni sy'n symud cyfeiriad ac sy'n dymuno i'w plant aros yn eu hysgolion presennol, pan nad dyma eu hysgolion agosaf addas mwyach.

16. Cau Ysgolion – Trefniadau Cludo

Os bydd ysgol yn cau, gall cludiant cymorthedig gael ei ddarparu ar gyfer disgyblion a ddadleolwyd ac a gofrestrwyd yn yr ysgol ar adeg cau'r ysgol ac sy'n gorfod teithio ymhellach i'w hysgol addas agosaf newydd, pan fo hynny'n cael ei ystyried yn briodol dan y trefniadau a gytunwyd yng nghynllun cau'r ysgol.

17. Cludiant Ôl-16

Gall holl fyfyrwyr 16 a 17 oed ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd berthnasol, ac sy'n dilyn cwrs o astudiaeth lawn-amser mewn chweched dosbarth ysgol neu goleg, fod â hawl i gludiant di-dâl ond bod y myfyrwyr yn mynychu'r sefydliad addysgol addas agosaf i'w cartrefi sy'n cynnig y cwrs priodol. Bydd y terfynau pellter yr un fath â'r rhai sy'n berthnasol i ddisgyblion oedran ysgol gorfodol.

18. Y Drefn Apelio

Gall rhieni apelio yn erbyn penderfyniad yr AALl ac, os byddant yn penderfynu gwneud hynny, rhaid iddynt nodi ar beth y maent yn seilio eu hapêl. Dylid gwneud unrhyw apêl yn ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Cludiant a Rheoli Asedau.